Ysgol Penrhyncoch

Bu diwedd y tymor yn gyfnod eithaf prysur yn yr ysgol. Cynhaliwyd cyngerdd yn Neuadd y Penrhyn ar nos Fercher, 15 Mawrth, a bu nifer helaeth o'r plant yn cymryd rhan. Cafwyd amrywiol eitemau yn ogystal â chân actol ar y testun "Ffermio". Ein diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Aeth amryw o'r plant i gystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Penglais ar 18 Mawrth gan wneud gwaith canmoladwy. Daliwch ati bob un. Gan mai dim ond cân actol yr ysgol oedd yn bwriadu cystadlu yng nghylch